



**Cofrestru Cwrs Byr CBAC (Cyfnewid 4339 CB, QN C00/0481/5)
a Chwrs Llawn (Cyfnewid 4330 GU, QN C00/0477/3)
TGAU Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**

Fel yr amlinellir ym manyleb CBAC TGAU TGCh, gall ymgeiswyr ddilyn Uned 1 ac Uned 2:

- a chyfnewid am y cymhwyster cwrs byr
- cyn dilyn Uned 3 ac Uned 4 a chyfnewid am gymhwyster TGAU llawn ar ddiwedd y cwrs
- yn yr un gyfres ag Uned 3 ac Uned 4 a chyfnewid am gymhwyster TGAU llawn.

Pan fydd ymgeiswyr wedi cyfnewid Uned 1 ac Uned 2 am y dyfarniad cwrs byr, ni all canlyniadau o Uned 1 ac Uned 2 gyfrannu at ddyfarniad cwrs llawn.

Mae'n bwysig nodi fod ymgeiswyr **yn cael** cyfnewid cwrs llawn a chwrs byr yn yr un gyfres **os ydynt wedi cwblhau unedau digonol i ganiatáu'r ddau gyfnewid ar gyfer yr un gyfres**. Er enghraifft, efallai eu bod wedi sefyll Uned 1 ac Uned 2 ym mlwyddyn 10 ac yna mynd ymlaen i sefyll Uned 1 ac Uned 2 eto, ynghyd ag Uned 3 ac Uned 4 ym mlwyddyn 11.

I ymgeiswyr sy'n 'cyfnewid' cymhwyster cwrs byr a chwrs llawn **yn yr un gyfres, er mwyn bodloni gofynion terfynol**, bydd CBAC yn prosesu'r **cyfnewid cwrs byr yn gyntaf**. Gall hyn felly gael effaith andwyol ar radd gyffredinol y cwrs llawn.

Noder **na fydd** gan ganolfannau **hawl** i gael gwared ar unrhyw gyfnewid unwaith **y bydd y canlyniadau wedi'u cyhoeddi**. Os yw canolfan yn dymuno dileu cyfnewid unrhyw ymgeisydd, **rhaid cyflwyno ffeil ddiwygio yn y ffordd arferol cyn 1 Awst** ym mlwyddyn y cyfnewid.